Cofnodion Drafft – Cyfarfod Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir – 6 Rhagfyr 2010
CCGC - Plas Penrhos, Bangor/dros y ffôn

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Jan Sherry | JS | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Trevor Dines | TD | Plantlife |
| Alys Edwards (dros y ffôn) | AE | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Stuart Smith | SS | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Carrie Rimes | CR | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Charles Morgan (dros y ffôn) | CM | PONT |
| Caroline Wilson | CW | Parc Cenedlaethol Eryri |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Dave Lamacraft | DL | RSPB |
| Helen Buckingham | HB | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

Ar ddechrau'r cyfarfod nodwyd bod cylch gwaith y grŵp, a'r gwaith mapio yn fwyaf penodol, wedi mynd yn rhy fawr erbyn hyn, gan ei fod yn cynnwys gormod o gynefinoedd, ac y byddai'n werth rhannu'n ddau grŵp gorchwyl a gorffen a fyddai'n edrych ar safleoedd glaswelltir a rhostir er mwyn cwblhau'r gwaith mapio.

**Eitem 1 ar yr Agenda – Cytuno ar flaenoriaethau mapio**

Cytunodd y grŵp y byddai safleoedd allweddol yn cael eu rhestru ym mhob un o'r ardaloedd a fapiwyd.

Rhostir a glaswelltir arfordirol Môn

Trefniadau pori yw'r broblem ar bob safle.

Dywedodd JS wrth y grŵp fod y safleoedd hyn yn cynnwys rhostir sy'n bodoli'n barod neu safleoedd glaswelltir morol. Dywedodd TD fod *Ranunculus tripartitus* wedi'i gofnodi ar y mewndir hefyd.

**CAM GWEITHREDU 1.** JS a TD i drafod a yw'r cofnodion ar gyfer brain coesgoch yn gywir gyda DL.
**CAM GWEITHREDU 2.** TD i edrych ar fapiau safleoedd arfordirol i weld a yw *Ranunculus tripartitus* a chamri wedi'u cynnwys, ac i drafod cynnwys mathau eraill o gen gyda JS.

Mae rhai safleoedd yn cael eu targedu ar gyfer prosiectau Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn. Nid yw'r ceisiadau WREN na cheisiadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cael eu cyflwyno eto. Gall y Bartneriaeth gynnwys cymaint ag sy'n bosib o waith yng ngogledd Môn – dywedodd CM fod £100,000 ar gael ar hyn o bryd dan y pennawd seilwaith cyffredinol a bod angen ei wario. Bydd HB a Hilary Kehoe yn edrych ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ystod yr wythnosau nesaf.

<u>Safleoedd Allweddol</u>
Dywedodd JS fod SoDdGA Trewilmot yn safle allweddol ym Môn ynghyd â chynefinoedd yn y gogledd-ddwyrain; Llancarw a Phenrhyn Mawr

<u>Coedwig Gwydyr– Calaminarian</u>

Potensial ar gyfer gwaith adfer, ond mae angen dull gweithredu ehangach. Mae'r tir yn eiddo i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a'r gwaith rheoli sydd ei angen yw torri coed pîn. Mae angen pori rhai safleoedd ond y broblem fwyaf yw cerbydau maes. Mae ffensys wedi'u codi o amgylch rhai safleoedd ac mae hyn wedi bod yn effeithiol.

Cytunwyd y byddai map o'r ardal lle byddai'n ddymunol torri coed pîn yn ddefnyddiol iawn, ond bod hyn yn anodd oherwydd diffyg data am halogiad pridd.

Trafod rheolaeth y safle gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, ac Alan Hale neu Ray Woods o bosib.

Dylid ceisio cael cyfarfod gydag arbenigwyr lleol a chenedlaethol a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru er mwyn gweld a oes rhywbeth y gellid ei wneud er mwyn ehangu'r safleoedd presennol. Mae angen mwy o arolygon rhywogaethau / gwaith monitro hefyd ar gyfer cen a bryoffytau (mae staff lleol CCGC yn ymwybodol o'r angen hwn).

**CAM GWEITHREDU 3.** SS i drefnu cyfarfod yn ystod y gwanwyn nesaf gydag arbenigwyr glaswelltir Calaminarian, y Cyngor Cefn Gwlad a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae angen canolbwyntio ar ddau faes gwaith:
1. Gwaith ar yr ardaloedd presennol (arolygon rhywogaethau /monitro).
2. Gwaith adfer a nodi ardaloedd priodol.

Dywedodd TD fod y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau wedi cwblhau'r un broses ac wedi nodi'r safleoedd hyn fel ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer cen. Gwaith dilynol o bosib i brosiect ar y cyd.

**CAM GWEITHREDU 4.** Mae angen rhestr o rywogaethau Adran 42 ar gyfer y safle hwn. Stuart i drafod hyn gydag Alan Hale a chael adroddiad copi o Steve Chambers 1994 ar gyfer y safle.

Arfordir Ceredigion

Ar hyn o bryd safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r unig ardaloedd gweithredu ac mae angen mewnbwn gan sefydliadau eraill er mwyn cwblhau'r gwaith, gan gynnwys mewnbwn am rywogaethau allweddol fel y frân goesgoch a britheg y gors.

Pori yw'r broblem fwyaf. Mae llawer o safleoedd naill ai'n cael eu tanbori neu'n cael eu gorbori.
Y rhywogaethau allweddol yw'r frân goesgoch a'r fritheg berlog fach.

**CAM GWEITHREDU 5.** SS i ychwanegu safleoedd glaswelltir ychwanegol at y map.

Mae angen trafod safleoedd gyda Jenny Higgins (Tîm Rhanbarthol CCGC) a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion er mwyn ychwanegu unrhyw safleoedd blaenoriaeth lleol.

Gallai arwain at Gynllun Anifeiliaid Pori Gorllewin Cymru gan fod pori'n broblem fawr – mae prinder tir âr ar hyd yr arfordir yn fater sy'n peri cryn bryder.

Mwnt - ardal lle gellid canolbwyntio ar dir âr.

Angen cysylltu â'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a grwpiau ecosystem eraill a chydgysylltu prosiectau. Mae angen ychwanegu rhagor o rywogaethau allweddol.

Calchfaen Gogledd Cymru

Mae'r map wedi cael ei fireinio er mwyn canolbwyntio ar yr ardaloedd cynefinoedd presennol. Rhywogaethau Adran 42 eraill o amgylch y Gogarth – angen gwneud rhestr o'r rhywogaethau allweddol.

Un o'r problemau mwyaf yw tanbori. Nid oes ymdrech gydunol i fynd i'r afael â'r safleoedd hyn. Mae rhywogaethau goresgynnol hefyd yn broblem fawr ar laswelltir calchfaen ac mae angen rheoli rhywogaethau goresgynnol brodorol ac estron.

Gallai safleoedd Conwy fynd am gyllid WREN ond byddai angen anogaeth drwy Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy.

**CAM GWEITHREDU 6.** SS i nodi safleoedd allweddol a blaenoriaethau.

Angen gwaith manwl i weld beth mae angen ei wneud a chynnwys amcangyfrif o'r costau a mewnbwn CM.

Arfordir Gŵyr – (mapiau heb eu cynnwys)

**CAM GWEITHREDU 7.** Jan i ddosbarthu mapiau.

Arfordir Gŵyr

Nodi'r darnau gorau o laswelltir a rhostir calchfaen – canolbwyntio'r ymdrechion ar 1&2.

Y broblem fwyaf yw pori (yn ardal Gŵyr yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y tiroedd comin)

Rhywogaethau allweddol – cofnodion da ar gyfer meryw, casgliad o blanhigion fasgwlaidd ar gyfer arfordir Gŵyr, adran 42 *Clinopodium* a meryw.

Mae problem gyda llwybr yr arfordir, symud stoc trwm oddi wrth y llwybr oherwydd gwrthdaro gyda hawl dramwy gyhoeddus.

**CAM GWEITHREDU 8.** HB i drefnu cyfarfod yn ardal Gŵyr y flwyddyn nesaf i edrych ar fapiau cyflwr a'r ffordd ymlaen.
**CAM GWEITHREDU 9.** TD i anfon data o'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau at JS i'w cynnwys ym mapiau Gŵyr.
**CAM GWEITHREDU 10.** SS i ychwanegu unrhyw safleoedd glaswelltir a fethwyd, yn uniongyrchol ar fap JS. TD i lunio map newydd.

<u>Dolydd Gorlifdir Maesyfed/Wrecsam</u>

Ychydig o gynefinoedd sydd dan y pennawd hwn ar hyn o bryd – cytunodd aelodau'r grŵp eu bod yn fodlon â'r dull gweithredu oedd yn cael ei ddefnyddio, gan roi blaenoriaeth i ailsefydlu glaswelltir – gallai gael ei dargedu drwy Glastir. Dywedodd SS wrth y grŵp fod y cynefin hwn eisoes wedi'i gynnwys yn rhannol ar fapiau Glastir er nad yw'r mapiau mor fanwl â hyn.

Mae gwaith yn cael ei wneud yn Lloegr ar hyn o bryd gan y Bartneriaeth Dolydd Gorlifdir, sy'n gwneud gwaith ar draws ffiniau. Dylent gael eu cynnwys mewn unrhyw brosiectau.

**CAM GWEITHREDU 11**. SS i edrych ar ddolydd gorlifdir Sir Drefaldwyn ac ychwanegu.

Mae angen edrych yn fanylach ar gynefinoedd.

<u>Glaswelltiroedd Niwtral heb eu Gwella</u>

Nodwyd bod y cynefin hwn i'w gael ledled Cymru felly nid yw'n bosib ymdrin ag ef mewn un prosiect. Edrych ar 6 prosiect, gan gynnwys 2 brosiect sy'n seiliedig ar rywogaethau. Mae angen mwy o waith i ymdrin â chlystyru – trafod gyda Jim Latham.

Gofynnwyd a oedd y grŵp yn fodlon cael rhwydwaith fel ardal darged yn hytrach na safleoedd, a chytunwyd bod hwn yn ddull gweithredu da.

Angen ychwanegu data asiantaeth y cefnffyrdd.

**CAM GWEITHREDU 12.** AE i drafod data TREBAP gyda Len Wyatt o asiantaeth y cefnffyrdd.

**1. Ceredigion –** Angen cynnwys Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wrth asesu cyflwr safleoedd.

**2. Dolydd Cwm Elan** – Prosiect pori'n mynd rhagddo'n barod gydag Ymddiriedolaeth Cwm Elan. ? Cynnwys prosiect fel 2il brosiect blaenoriaeth.

**CAM GWEITHREDU 13.** SS i anfon map at Ray Woods i gael sylwadau.

**3. Gwent –** Ardal bwysig ar gyfer MG5 yng Nghymru. Mae'r gardwenynen Bombus Sylvarum yn bresennol ac mae cyfle i adfer MG5 a gwella cysylltedd rhwng gwastadeddau Gwent a dolydd Sir Fynwy.

Yr ardaloedd i ganolbwyntio arnynt i'w pennu gan Mike Howe. Awgrymwyd hefyd y dylai/gallai hyn fynd i'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau fel prosiect rhywogaeth.

**CAM GWEITHREDU 14.** SS i anfon mapiau cardwenynen Bombus Sylvarum at Mike Howe.

**4. Meirionnydd –** Ardal rhywogaethau yn hytrach na chlwstwr da o gynefinoedd. Dywedodd TD fod hwn yn fwy o brosiect blaenoriaeth oherwydd y boblogaeth unig a allai'n hawdd iawn ddiflannu.

Angen pennu cyflwr y safle – Llunio fel prosiect gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn nodi cyfleoedd ar gyfer adfer.

**CAM GWEITHREDU 15**. SS i anfon rhestr mapiau safleoedd posib at CW.
**CAM GWEITHREDU 16.** JS i anfon mapiau at Rod Gritten, er mwyn nodi unrhyw safleoedd posib eraill.

**5. Cynefinoedd Castellmartin –** Cardwenynen Bombus Sylvarum – y prosiect glaswelltir yn ffinio ag ardal arfordir Sir Benfro. Dim gormod o broblemau – mae tyfiant brasach nag y byddid yn hoffi ei weld ar y safle ac mae angen mwy o waith i'w reoli – tir y Weinyddiaeth Amddiffyn i gyd. Ar ôl ei nodi bydd angen canolbwyntio ar wella rheolaeth.

Dim gormod o flaenoriaeth i MG5. Gan fod hysbysiad yn cael ei wneud dylid canolbwyntio ar ymestyn cynefin y gardwenynen Bombus Sylbarum tua'r gogledd.

**6. Glaswelltiroedd Cymoedd De Cymru** – Richard Wistow (RhCT) posibilrwydd o adfer ardal MG5 (ardal flaenoriaeth ail lefel).

**7. Penrhyn Llŷn –** Pori'n broblem ar bob safle. Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud gan Bartneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn.

Y safleoedd blaenoriaeth ym Mhenrhyn Llŷn yw:

Trwyn Cilan – anodd datrys problemau Cilan drwy waith gyda Hilary a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, byddai angen rhaglen bwrpasol – problem gyda phorwyr;

Mynydd Tir-y-Cwmwd – edrych ar drefniadau bugeilio defaid pori;

Mynytho – nid yw'r safle hwn yn cael ei bori ychwaith ond mae'n bosib y gellid ei bori.

Safle glaswelltir corsiog Capel Horeb

Safleoedd i'r dwyrain sy'n safleoedd brain coesgoch yn bennaf heb fawr ddim pori; nid oes cymaint o flaenoriaeth i safleoedd eraill yn rhan uchaf Llŷn.

Anelog – mae gan y safle landlord absennol nad yw'n ymwneud â rheoli'r tir comin. Byddai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hoffi pori'r safle ond nid yw'r landlord yn awyddus iawn.

Tir comin Bychestyn – prin ddim grug ar ôl, angen prosiect adfer rhostir.

Enlli –problem bosib â gormod o reoli rhostir.

Y safleoedd blaenoriaeth yw Cilan, Bychestyn a Mynydd Tir-y-Cwmwd.

Angen sicrhau bod y rhywogaethau'n gywir.

**CAM GWEITHREDU 17.** TD i anfon rhestr o rywogaethau at JS er mwyn eu cynnwys.

Rhostir Arfordir Sir Benfro

**CAM GWEITHREDU 18**. JS i wneud ymholiadau er mwyn gweld a yw Dale wedi'i gynnwys.

Mae Sir Benfro'n dal yn rhan o Gynllun Anifeiliaid Pori Gorllewin Cymru (WWGAS), ond nid yw'r cynllun yn cynnwys y Preselau ar hyn o bryd. Mae Geraint yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ceisio sicrhau bod ardal y Preselau'n cael ei chynnwys yn y Cynllun. Ar hyn o bryd nid oes digon o stoc ar gyfer yr holl safleoedd sydd bellach yn rhan o'r Prosiect Anifeiliaid Pori.

Castellmartin – oes arnom ni eisiau prosiect MG5 neu dim ond un ar gyfer y gardwenynen Bombus Sylvarum?

**CAM GWEITHREDU 19**. HB i drafod yr uchod gyda Tudd – pa safleoedd yw'r safleoedd allweddol? A oes rhai safleoedd lle nad oes gennym gofnodion blaenorol ar eu cyfer?
**CAM GWEITHREDU 20.** TD i drafod y safleoedd allweddol gyda Steven Evans.
**CAM GWEITHREDU 21.** JS i adolygu'r rhestr rhywogaethau gyda CM – Os nad oes digon o wybodaeth ar gael HB i anfon mapiau at Tudd er mwyn cael sylwadau.
**CAM GWEITHREDU 22.** HB i gysylltu â Geraint (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) i drafod briff ardal Prosiect y Preselau.

Traethau Graeanog Ceredigion (dim mapiau)

**CAM GWEITHREDU 23.** JS i anfon mapiau.

Prif gamau gweithredu – pori, clirio prysglwyni ac atal sefydlogi'r afon (mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn sôn am gyflawni gwaith ar afon Rheidlol).

Glaswelltir corsiog – heb ei gwblhau eto. Mae Jim eisiau gwneud dadansoddiad clwstwr yn seiliedig ar MG24.

**CAM GWEITHREDU 24.** CW i anfon cofnodion britheg y gors ar gyfer Dolgellau at SS.

Ffridd - (dim mapiau) angen symud yn gyflym.

Gwybodaeth am gynefinoedd adar a ffyngau. Safleoedd ffridd da yn Eryri, y Berwyn, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ceisio llunio prosiect ar gyfer Ffriddoedd – gan ddechrau ag Eryri fel yr ardal sydd wedi cael ei hastudio fwyaf (gwaith wedi'i wneud yn y gorffennol gan John Hawthorn).

**CAM GWEITHREDU 25.** CW i gadarnhau a all Parc Cenedlaethol Eryri arwain y gwaith o baratoi mapiau Ffriddoedd. Os gall, CW a Kate i baratoi mapiau cychwynnol o'r safleoedd Ffriddoedd gorau yn Eryri a'u dosbarthu er mwyn i bawb fewnbynnu rhywogaethau.

**CAM GWEITHREDU 26.** SS i drafod ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer ffyngau glaswelltir gyda Ray Woods.
**CAM GWEITHREDU 27**. JS i anfon haen Ffriddoedd CCGC at CW.

Cytunwyd bod angen cwblhau'r gwaith mapio ar y lefel hon ac anfon y mapiau at staff rhywogaethau CCGC a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i gael sylwadau cyn gynted ag y bo modd.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau mapiau yw dydd Gwener 14 Ionawr 2011 (ac eithrio'r 2 gynefin newydd).

**CAM GWEITHREDU 28.** AE i roi mapiau ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn cael sylwadau.
**CAM GWEITHREDU 29**. AE i anfon copïau i'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn cael sylwadau.
**CAM GWEITHREDU 30.** AE i ofyn i Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r RSPB anfon copïau at gydweithwyr er mwyn cael sylwadau.

**Eitem 2 ar yr Agenda – Ymateb i'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol**

Cytunodd y grŵp i ddatblygu ymateb byr (yn seiliedig ar ymateb NATUR) i'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol gan ganolbwyntio ar faterion allweddol.

Materion allweddol
- Ffrydiau gwaith cydredol – ddim yn gweithio tuag at bwynt terfynol, dim gweledigaeth o'r cynnyrch terfynol
- Dylai'r ffrydiau gwaith fod yn ddilyniannol
- Mae angen cryfhau geiriad NERC (ystyried / gwella)
- Gormod o bwyslais ar safleoedd statudol (adroddiad Lawton)
- Dim tystiolaeth i ddangos sut rydym yn cyflawni gwasanaethau ecosystem
- Dadlau'r achos dros newid system ariannu Llywodraeth y Cynulliad
- Llawer o waith da'n cael ei wneud yn barod – dylai gwaith presennol sy'n llwyddiannus barhau.

Enghreifftiau o'r llwyddiannau hyn;

- Prosiect Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn (enghraifft dda o'r hyn y gellir ei gyflawni heb lawer o arian)
- Gwaith rhostir yn Llŷn
- Hysbysiad safleoedd
- Dolydd sir Fynwy – cydweithrediad cymunedol
- Treftadaeth Rhostir Yfory
- Cynllun Grant Glaswelltir (CCGC/PONT)

- Enghreifftiau o'r tu allan i Gymru ,e.e. gwastadedd Salisbury, gwaith glaswelltir Culm, Prosiect 'Hay Time'.

**CAM GWEITHREDU 31.** AE i anfon papur y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar ddeddfwriaeth bywyd gwyllt at JS.
**CAM GWEITHREDU 32.** CW i ddosbarthu ymateb y Parc Cenedlaethol i'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol.
**CAM GWEITHREDU 33.** JS i ddosbarthu ymateb NATUR, gan dynnu sylw at negeseuon allweddol ac anfon at HB i gael cymeradwyaeth/sylwadau.
**CAM GWEITHREDU 34.** Pawb i anfon sylwadau at JS.

## Eitem 3 ar yr Agenda – Grantiau Ecosystem

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau yw 7 Ionawr. Nodwyd bod yr amserlen hon yn rhy fyr i ddatblygu cynigion manwl. O ganlyniad, byddai'n well cyflwyno nifer fach o gynigion i ddechrau a rhestr hirach o ddyheadau. Dywedodd TD wrth y grŵp fod y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau hefyd wedi datblygu rhestr o brosiectau a'i bod yn bosib y gellid cydblethu â'r rhestr hon.

Dywedodd JS fod y gronfa'n debygol o gael ei gweinyddu gan y Cyngor Cefn Gwlad yn y dyfodol ac y bydd angen ei datblygu. Mae gan Julia Korn gyfarfod gyda grŵp partneriaeth y Cyngor Cefn Gwlad i drafod materion yn y dyfodol agos ac awgrymwyd y dylid annog cyrff anllywodraethol i drafod datblygiad y gronfa hon gyda'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Diana Reynolds) a nodi i ba gyfeiriad y mae'r cynllun grant yn mynd.

Ni ddylid newid prosiectau sy'n bodoli'n barod i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael – mae angen i geisiadau llai ganolbwyntio ar waith hollbwysig.

Ar hyn o bryd mae dau brosiect i'w hystyried, a disgwylir trydydd prosiect.

### Prosiect 1 - Cefn Drum a'r Graig Fawr, Adeiladu Ein Bioamrywiaeth

Cais am £10k ar gyfer gwaith ar ochr ogledd-ddwyreiniol Abertawe lle mae 2 ddarn o dir comin yn ymestyn dros tua 789ha. Hefyd yn cael ei ystyried gan grŵp yr ucheldir.

Cytunodd y grŵp fod angen mwy o wybodaeth am safleoedd penodol ond roedd y grŵp yn cefnogi'r cais hwn mewn egwyddor.

**CAM GWEITHREDU 35.** CM i anfon copi o gynllun y prosiect at JS ac SS.

Project 2 – Prosiect Pori Cynaliadwy Gwarchodfa Natur Cwm Colhuw

Cynnig wedi'i gyflwyno gan Liz Stewart (Cyngor Bro Morgannwg).

Cais am £2.25k gyda'i gilydd i sefydlu cynllun pori ger SoDdGA ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Cytunodd y grŵp fod angen rhagor o wybodaeth, yn fwyaf penodol er mwyn canfod a oedd porwr wedi'i gadarnhau ai peidio, cyn y gallai'r cais am gyllid fod yn llwyddiannus, ond unwaith eto, roedd y grŵp yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor.

**CAM GWEITHREDU 36.** AE i gysylltu â Liz i ofyn am ragor o wybodaeth.

Dywedodd JS eu bod yn disgwyl trydydd cynnig gan yr RSPB a fyddai'n canolbwyntio ar reoli rhostir ar Ynys Lawd – dywedodd CM wrth y grŵp fod gan Bartneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn rywfaint o arian heb ei wario o hyd, felly mae'n bosib y gellid gwneud y gwaith hwn dan y Bartneriaeth.

**CAM GWEITHREDU 37**. JS i drafod gyda Hilary a'r RSPB
**CAM GWEITHREDU 38.** AE i drafod y posibilrwydd y gallai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyflwyno rhagor o gynigion gyda HB.

**Eitem 4 ar yr Agenda – CCGC - Mapio Ardaloedd sy'n Agored i Niwed o Ganlyniad i Weithgareddau Hamdden**

Mae gwaith yn cael ei wneud gan Sophie Lake o Footprint Ecology, gan ddefnyddio system grid dros fap o Gymru o fewn GIS a rhoi sgôr i bob cell yn ôl pa mor agored i niwed ydoedd o ganlyniad i weithgareddau hamdden yn aflonyddu, yn enwedig difrod ffisegol, halogiad (baw cŵn yn bennaf) a thân.

Mae SS wedi bod yn mynd drwy'r tablau a ddarparwyd gan Sophie. Ceir trafodaeth isod sy'n canolbwyntio ar y categorïau amrywiol a'r effeithiau tybiedig a chytunodd SS ei fod yn fodlon cwblhau'r gwaith a'i anfon at Sophie.

**CAM GWEITHREDU 39.** SS i gwblhau'r tablau gan gynnwys sylwadau a dderbyniwyd a'u hanfon at Sophie, a chopi i HB.

**Eitem 5 ar yr Agenda – Y Diweddaraf am Gynllun Anifeiliaid Pori Gorllewin Cymru**

Dywedodd CR wrth y grŵp mai'r Ymddiriedolaeth Glaswelltir oedd yn arwain y prosiect drwy'r Deyrnas Unedig a bod cynnig da wedi'i wneud drwy Gronfa Treftadaeth y Loteri. Roedd y cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob rhan o'r Deyrnas Unedig ac roedd yn cynnwys nifer o brosiectau. Mae'r rhag-gais wedi'i gyflwyno a byddai'r cam cyntaf yn cael ei gynnal rhwng nawr a mis Chwefror – er bod y gost gyffredinol yn rhwystr.

Cynhelir cyfarfod ar gyfer pawb sydd â diddordeb ar 6 Ionawr 2011. Cytunodd y grŵp ei bod yn bwysig bod nifer dda o bobl yn bresennol yng nghyfarfod mis Ionawr.

Mae'r prosiect yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phenfro, ond mae wedi bod yn canolbwyntio hyd yn hyn ar sir Gaerfyrddin. Dywedodd CR wrth y grŵp mai arian LIFE sy'n talu am swyddog sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, a bydd y cais hwn yn cyflenwi cyllid ar gyfer swyddogion Ceredigion a sir Benfro.

Bydd targedau'n cael eu cwblhau yng nghyfarfod mis Ionawr.

**CAM GWEITHREDU 40**. CM i ddosbarthu cynnig drafft ar gyfer y prosiect – gan gymryd mai PONT fyddai'n rhedeg y prosiect yng Nghymru.
**CAM GWEITHREDU 41.** CM i anfon rhestr o safleoedd a luniwyd gan Andrew Tuddington at SS a JS.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – naill ai 9 neu 2 Chwefror 2011.

**CAM GWEITHREDU 42.** AE i drafod gyda Helen ac anfon rhestr o ddyddiadau posib.